# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 10 RHAGFYR 2020

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Elfed Roberts (Cadeirydd), Angela Russell, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Lowri Haf Evans a Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5:
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr / Aelod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn) a Nonn Hughes (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6:
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Dafydd Gibbard (Pennaeth Tai ac Eiddo), Heledd Jones (Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Linda Morgan

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Cynghorwyr Aled W Jones, Annwen Hughes, Kevin M Jones, Angela Russell, Gethin G Williams ac Elwyn Jones yn eitem 7 ar y rhaglen gan eu bod yn berchen neu yn perthyn i rywun agos sydd yn berchen tŷ gwyliau

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22ain o Hydref 2020, fel rhai cywir.

**5. STRWYTHUR LLYWODRAETHIANT A THREFNIADAU CYFLAWNI BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Ymhelaethwyd ar gynnwys yr adroddiad a rhoddwyd diweddariad byr ar y datblygiadau o fewn y meysydd blaenoriaeth ynghyd a gwaith yr is-grwpiau sydd yn gyfrifol am y meysydd hynny. Ers mis Mawrth 2020, yn wyneb pandemig covid-19, eglurwyd bod cyrff cyhoeddus wedi gorfod addasu i ymateb i'r argyfwng iechyd drwy newid eu ffordd o weithio a chysylltu gydag eraill. Cyfeiriwyd at weithdy a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 i drafod rôl y Bwrdd yn eu gwaith o adfer cymunedau o'r pandemig.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gweithdy addaswyd ffrydiau gwaith yr is-grwpiau presennol ynghyd a'u rhaglenni gwaith a chytuno ar gerrig milltir. Cytunwyd hefyd i wneud gwaith ymchwil pellach mewn rhai meysydd (tlodi ariannol a diweithdra ymhlith pobl ifanc) er mwyn canfod y sefyllfa ddiweddaraf. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hynny yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 16eg Rhagfyr 2020.

Canfyddiad arall y gweithdy oedd bod nifer o'r partneriaid yn ymateb i anghenion llesiant ein cymunedau fel sefydliadau unigol. Eglurwyd bod y BGC yn gadarn eu bod am osgoi dyblygu gwaith, a'u bod yn ymchwilio i sut y gallent weithredu heb ddyblygu'r gwaith a wneir gan bartneriaid unigol er mwyn ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol. Un modd o osgoi dyblygu gwaith yw bod y Bwrdd o bryd i'w gilydd yn gwahodd partneriaid eraill i roi cyflwyniadau am eu gwaith fel y Bartneriaeth Sgiliau a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Os am graffu gwaith y Bwrdd, bod angen gwybodaeth am fesuriadau, targedau, data, llwyddiannau
- Pam nad yw'r Heddlu yn rhan o'r Bwrdd?
- Bod diffyg tai ar gael i brynu yn lleol
- Cefn gwlad yn dioddef gyda gwasanaethau yn symud neu cau mewn cymunedau
- Ethos Cymdeithasau Tai oedd prynu tai yn lleol yn hytrach nag adeiladau i bobl leol - angen canolbwyntio ar yr elfen o ail adeiladu i warchod yr iaith a sicrhau bod unrhyw arian sydd yn cael ei dderbyn e.e., Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn cael ei fuddsoddi yn yr ardaloedd hynny sydd yn dioddef o'r effaith

Mewn ymateb i sylw nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld yr angen i gyfrannu at gostau cynnal a chadw'r arfordir mewn ymateb i gynnydd mewn defnydd / ymwelwyr o ganlyniad i'r pandemig, awgrymwyd bod angen addasu meddylfryd y Llywodraeth i ddeall bod rhai materion arfordirol tu hwnt i strategaethau Awdurdodau Lleol. Amlygwyd bod Gwynedd eisoes wedi gorfod ymdrin gyda chostau ychwanegol o gynnal a chadw'r isadeiledd o gwmpas y cynnydd mewn defnydd.

Ategwyd bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi bod rhaid i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar sut mae eu penderfyniadau yn mynd i gael effaith hirdymor, gan gydweithio i atal problemau rhag digwydd a chydnabod na all unrhyw gorff cyhoeddus unigol ymateb i'r heriau mawr. Cytunwyd yr angen i drafod strwythur ymwelwyr a nodwyd bod gweithgor wedi ei sefydlu i edrych ar ddiffyg y ddarpariaeth bresennol ynghyd a cheisio cyfundrefn ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chael Cyngor Gwynedd i arwain ar faterion tai yn hytrach na Phrif Weithredwr Cwmni Tai Masnachol, nodwyd bod Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Tai i'r Cabinet ar y 15fed o Ragfyr yn amlinellu cynlluniau addas i wireddu gweledigaeth y Cyngor o sicrhau tai addas i drigolion y Sir. Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn cydweithio gyda Chymdeithasu Tai i gwblhau cynlluniau penodol fyddai'n gwthio'r cynllun ymlaen. Ategwyd mai gwaith yr Is-grŵp Tai yw sefydlu rhaglen arloesol o adeiladu tai newydd fforddiadwy yn y Sir e.e., adeiladu tai carbon isel, neu dai 'wedi eu gwneud yn barod' yn Gymru. Pwysleisiwyd mai gwaith yr Is-grŵp yw edrych ar gyfleoedd newydd neu ddulliau o adeiladu gyda Strategaeth Tai Gwynedd a Chynllun Gweithredu Tai Gwynedd yn gadarn yn nwylo Cyngor Gwynedd.

Mewn ymateb i sylw nad oedd is-grŵp tlodi er wedi ei adnabod yn faes blaenoriaeth, nodwyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dymuno edrych ar dlodi ond bod dyblygu gwaith yn bryder. Ategwyd mai'r bwriad yw ceisio trefniadau i sicrhau lle mae bylchau ac uchafu'r hyn a ellid ei wneud i daclo tlodi. Atgoffwyd yr Aelodau bod gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud er mwyn canfod y sefyllfa ddiweddaraf gan gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar Ragfyr 16eg 2020.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 6. DIWEDDARIAD ADOLYGIAD PARCIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Amgylchedd a rhoddwyd trosolwg ar ei gynnwys. Nodwyd prif ddiben yr adroddiad sef bod y strategaeth bresennol, y mabwysiadwyd yn 2015, yn dod i derfyn yn 2021. Atgoffwyd y pwyllgor bod tasglu parcio wedi ei sefydlu i ystyried yr angen i gynyddu incwm ynghyd a'r heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi ers y strategaeth parcio ddiwethaf gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2015.

Adroddwyd bod dau brif her gan y grŵp tasg sef i gynyddu incwm i'r nod o £400,000 ag yn ail i gyflawni hynny heb effeithio'n ormodol ar drigolion Gwynedd. Eglurwyd bod sawl newid wedi bod yn arferion parcio dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys;

- Mwy o dwristiaid ac o ganlyniad mwy o alw ar lefydd parcio.
- Mwy o geir trydan yn cael eu prynu ac felly cyfle i osod mannau gwefru ceir.
- Cynnydd yn y defnydd o daliadau di gyffwrdd, amlygu'r angen i uwchraddio'r peiriannau talu yn y meysydd parcio.
- Cynnydd mewn cartrefi modur yn parcio mewn mannau amhriodol.

Ymhelaethwyd ar y pwyntiau uchod gan nodi'r angen i gynnig darpariaeth talu a cherdyn yn gyfochrog a thaliadau arian. Nodwyd bod darpariaeth talu dros y ffôn

wedi ei sefydlu, ond ei fod yn ddibynnol ar ffon symudol a signal digonol i wneud y taliadau. Fodd bynnag, dengys bod cynnig y ddau opsiwn yn mynd i hwyluso codi mwy o incwm yn y dyfodol gan fod modd i bobl sydd heb arian ddefnyddio'r meysydd parcio.

Adnabuwyd y pryderon sydd wedi eu hamlygu'n ddiweddar ynghylch cerbydau gwyliau a'r cynnydd a fu wrth i gyfyngiadau rhwystro teithiau tramor. Eglurwyd nad oedd hwn yn fater hawdd i'w ddatrys a bod y broblem wedi bodoli ers rhai blynyddoedd bellach. Nodwyd bod datrysiadau megis, creu is-ddeddfau, cynyddu swyddogion gorfodaeth a hefyd addasu'r meysydd i hwyluso'r parcio cerbydau gwyliau ond gan godi ffioedd derbyniol arnynt am y gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at argymhelliad y grŵp tasg parcio o godi ffioedd 10% o fewn y meysydd parcio fel dull o gynyddu incwm. Ategwyd at hyn bod y grŵp tasg wedi adnabod na ddylid codi ffioedd ar barcio mewn mannau anabl ac felly byddai'r rhain yn parhau am ddim.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd pryder ynghylch cerbydau gwyliau yn parcio mewn mannau heb gyfleusterau ac mewn mannau gwyddonol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Nodwyd bod tystiolaeth o ddefnyddwyr yn gwaredu a gwastraff carthffosiaeth mewn mannau cyhoeddus.
- Cododd yr awgrym y dylid pwyso am greu is-ddeddfau er mwyn gwarchod mannau aros rhag i bobl parcio eu cerbydau gwyliau yna.
- Nodwyd bod angen cefnogi busnesau carafanau lleol ac felly ni ddylid y Cyngor buddsoddi mewn cynnig gwasanaethau ym meysydd parcio ar eu cyfer.
- Teimlai rhai aelodau bod y tocyn blynyddol am £140 yn swm uchel i rai talu ar unwaith, gan nad oes modd talu'n fisol croesawyd bod modd prynu tocyn 6 mis am hanner y pris.
- Nododd rhai aelodau bod cerbydau gwyliau yn adnodd gwerthfawr gan eu bod yn hunangynhaliol heddiw gyda chyflenwadau dwr a gwastraff yn gynwysedig. Awgrymwyd codi ffi gymharol a meysydd gwersylla fel bod cyfle i bobl parcio yn y trefi a defnyddio siopa a gwasanaethau lleol.
- Codwyd pryderon ynghylch parcio mewn rhai pentrefi, gyda chynnydd mewn tai gwyliau e.e. Airbnb, mae llefydd parcio yn cael eu meddiannu gan dwristiaid.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, cytunodd Pennaeth yr Adran Amgylchedd bod y sefyllfa cerbydau gwyliau yn bryder ers tro ond nododd ei fod yn broses hir creu is-ddeddfau er mwyn eu hatal rhag parcio. Nodwyd ei fod yn syniad cynnal sgwrs wleidyddol am y camau nesaf.

Gan gyfeirio at y tocyn blynyddol, nodwyd bod y posibilrwydd o dalu'n fisol yn anymarferol gan nad oes modd sicrhau bod taliadau yn parhau ar ôl cyhoeddi'r tocyn i'r preswylwyr. Amlygwyd bod modd prynu tocyn 6 mis mewn ymgais o ostwng y gost mewn ffordd wahanol.

Eglurodd y Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd y strwythurau ffioedd parcio gan nodi bod y tîm gorfodaeth parcio yn hunangynhaliol ar incwm dirwyon a ffioedd. Gan fod incwm wedi bod yn uwch na chostau cyflogi'r tîm, gellir dangos bod posibilrwydd i gynyddu maint y tîm, sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdopi a'r heriau parcio. Yn ogystal ag hyn, nododd y gellir defnyddio arian dros ben i ail-fuddsoddi i wella meysydd parcio ac uwchraddio'r peiriannau.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y diweddariad a chefnogi argymhelliad y Grŵp Tasg y dylid cynyddu ffioedd talu ac arddangos 10%.**

## 7. PAPUR YMCHWIL: RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL TAI GWYLIAU

Cyflwynwyd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019 oedd yn ymwneud a cheisio cyfarch sut y byddai modd cyfyngu ar faint o dai y gellid eu defnyddio at ddibenion gwyliau, gan edrych ar fesurau gweithredol mewn llefydd eraill a sut byddai modd newid y ddeddfwriaeth gynllunio er mwyn gweithredu yng Nghymru. Gofynnwyd hefyd am sylwadau'r Pwyllgor ar y gwaith cyn adrodd i'r Cabinet ar y 15fed o Ragfyr 2020.

Tynnwyd sylw, er pwrpas y gwaith, y diffiniwyd 'cartrefi gwyliau' fel;
- Unedau gwyliau a osodir yn y tymor byr: Tŷ preswyl (dosbarth defnydd C3) sydd ddim yn cael ei feddiannu'n rheolaidd ac yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol drwy ei osod ar gyfer defnydd gwyliau ar sail fasnachol.
- Ail gartref: Tŷ preswyl (dosbarth defnydd C3) sydd yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol gan y perchennog (ond ddim yn brif gartref) yn ogystal ag ymwelwyr eraill ar gyfer pwrpas gwyliau.

Cafwyd cyflwyniad manwl, ystyrlon i'r gwaith ac fe drafodwyd y chwe argymhelliad. Nodwyd bod yr argymhellion yn rhoi opsiynau o ran y mecanwaith posib a ellid ei gweithredu er mwyn cael rheolaeth a lleihau effaith llety gwyliau ar gymunedau. Eglurwyd y byddai rhai argymhellion yn cael eu trafod ar y cyd ac yn faterion i Lywodraeth Cymru eu gweithredu, tra bod modd gweithredu eraill ar lefel lleol e.e., gweithredu polisïau cynllunio lleol yn effeithiol – gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad yma yn y tymor byr ac wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Amlygodd Aelod Cabinet Amgylchedd ei siom mai Dinas Caerdydd oedd yr unig Awdurdod arall oedd wedi cyfrannu i'r gwaith ymchwil, ond bod siroedd eraill wedi dangos diddordeb ers i'r adroddiad gael ei ryddhau yn gyhoeddus. Ategodd bod un Sir eisoes wedi cyflwyno rhybuddion o gynnig o flaen eu Cyngor. Derbyniodd bod her yn wynebu'r Cyngor gan nad oedd llawer o ddiddordeb gan y Llywodraeth yn y sefyllfa ar yn o bryd, ond gyda dogfen weithredol yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth bod modd dechrau gweithredu ac ymateb i'r her.

Nododd Pennaeth Tai ac Eiddo ei fod yn llongyfarch y tîm ar eu gwaith gan ategu bod y dystiolaeth a gasglwyd yn lladd esgusodion Llywodraeth Cymru o weithredu. O ystyried cyflwyniad Premiwm Tai, Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd ynghyd a'r gwaith ymchwil, amlygodd bod tystiolaeth bendant i osod cyfeiriad i reoli'r defnydd.

Ategodd Aelod Cabinet Tai ac Eiddo bod y papur ymchwil yn cyflwyno ffeithiau sydd bellach yn arf i herio Llywodraeth Cymru – rhaid rheoli'r defnydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-
- Croesawu'r adroddiad – yn sylfaen dda i ddechrau lobio ac yn gyfle euraidd i newid y drefn a chymryd cyfrifoldeb a rheolaeth dros y sefyllfa
- Bod yr adroddiad yn cyfarch materion megis AirBnb, ond dim digon yn cael ei wneud i newid y Ddeddf Cynllunio drwy osod trothwyon i reoli –

angen dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf
- Bod yr ystadegau yn frawychus
- Bod rhaid gweithredu a herio'r Llywodraeth i wneud gwahaniaeth
- Angen mwy o fanylder am gyflogaeth ynghyd a phrisiau tai uchel mewn rhai ardaloedd - byddai hyn yn amlygu sut mae'r iaith yn colli ei thir – cadarnleoedd y Gymraeg yn colli eu Cymreictod
- Bod angen cau'r bylchau fel na ellid osgoi trefniadau rheoleiddio – gellid targedu 'unedau gwyliau tymor byr' – perchennog yn debygol o drosi yn ôl i gategori 'ail gartref' fel modd o osgoi rheolaeth
- Awgrym i fabwysiadau 'ymyrraeth' – creu dwy haen *gwyliau* a *lleol* fydd yn gwarchod y stoc tai lleol ac yn gyrru'r prisiau
- Angen ystyried Treth Trafodiadau Tir – cyfle i godi premiwm
- Materion tu allan i faes cynllunio y gellid eu gweithredu e.e., trethi twristiaid
- Angen rheolaeth dros 'ail gartrefi' – dim cyfleoedd na chartrefi ar gael i bobl ifanc
- Angen rheolaeth dros osod tai ac AirBnB - sicrhau safonau gosod a thacluso
- Angen cyfyngu niferoedd tai haf

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â cheisio rheolaeth dros dai haf a'r sgil effeithiau sydd yn deillio o hynny, nododd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd bod y briff yn gyfyngedig o fod yn edrych ar ddefnydd tai marchnad agored fel tai haf / ail gartrefi. Ategodd bod y gwaith yn cynnwys gwybodaeth fanwl a ffeithiol (a gyflwynwyd gan nifer o adrannau) sydd yn cyflwyno tystiolaeth werthfawr yn lleol ac yn genedlaethol. Amlygodd nad oedd datrysiadau hawdd i'r sefyllfa ond cyfeiriodd at waith sydd wedi ei wneud yn yr Alban fel enghraifft dda sydd wedi profi fod posib rheoli defnydd gwyliau byr dymor drwy newid deddfwriaeth gynllunio a thrwyddedu. Nododd bod rhai o'r argymhellion angen eu gweithredu ar y cyd ar lefel genedlaethol tra bod eraill yn faterion lleol lle gellid defnyddio'r dystiolaeth i addasu polisïau lleol. Derbyniodd bod Treth Traddodi Tir hefyd yn arf arall y gellid ei defnyddio.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â Threth Twristiaid a'r ffaith nad oedd wedi ei gynnwys fel argymhelliad i'r Cabinet ei ystyried, amlygwyd bod y gwaith yma yn cael ei arwain gan Adran Datblygu'r Economi ac felly heb ei gynnwys fel un o'r prif argymhellion.

Mewn ymateb i sylw y dylid ystyried 'ail gartrefi' o fewn cynllun trwyddedu gorfodol' nodwyd y byddai hyn yn eithriadol o anodd ei reoli drwy'r gyfundrefn cynllunio o gymharu â 'llety gwyliau' sydd yn ddefnydd masnachol gyda mynd a dod lle gellir dangos ei fod yn newid defnydd. Gyda rheoli ail gartrefi yn anodd gan nad oes modd profi newid defnydd, nodwyd bod yr argymhelliad o ran deddfwriaeth gynllunio a thrwyddedu yn mynd ar ôl rheolaeth llety gwyliau byr dymor gan geisio cael darlun cywir o'r sefyllfa ar y ddaear ac ar draul hyn, i'r dyfodol, bod modd ystyried rheoli hyn drwy bolisiau cynllunio lleol.

Mewn ymateb i'r sylw bod rheoli ail gartrefi yn anodd, awgrymwyd rhoi sialens i'r Cabinet i ystyried gosod categori gwahanol. Unwaith y bydd categori yn cael ei gynnwys bydd modd ei reoli.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**
- **Diolch i'r swyddogion am gyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth fanwl a**

**defnyddiol a ellid ei ddefnyddio i geisio dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i newid eu polisïau cynllunio.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 2.15 y.h.

**CADEIRYDD**